

Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

CYLCHLYTHYR CYNLLUN CYNORTHWYO GWAED HEINTIEDIG CYMRU (WIBSS)

Medi 2022

Taliadau Dros Dro

Byddwch wedi derbyn llythyr yn ddiweddar gan WIBSS, yn manylu ar y cyhoeddiad ar daliadau iawndal interim a wnaed gan Lywodraeth y DU ar 17 Awst 2022.

Fel buddiolwr WIBSS presennol mae gennym manylion eich cyfrif banc yn barod er mwyn inni allu gwneud eich taliadau cymorth rheolaidd presennol. Rydym yn bwriadu gwneud y taliad ychwanegol hwn i'r un cyfrif.

Fodd bynnag, mae gan rai banciau derfyn ar faint y gellir ei dalu i mewn. Felly, rydym yn argymhell eich bod yn rhoi gwybod i'ch banc ymlaen llaw i ddisgwyl cyfandaliad.

Rydym ar hyn o bryd yn aros am gyfarwyddyd pellach ynghylch y dyddiad pan fyddwn yn gwneud y taliadau hyn. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru, ynghyd â'u swyddogion cyfatebol ar draws y DU, yn gweithio ar ddatrys y materion treth cymhleth yn llawn cyn cadarnhau'r manylion terfynol. Y bwriad yw sicrhau nad oes rhaid talu treth incwm, treth ar enillion cyfalaf na threth etifeddiant ar y taliadau hyn.

Rhagwelir y bydd y taliad yn cael ei wneud ddiwedd mis Hydref.

Prawf o Incwm - Morgeisi

I'r rhai sy'n gwneud cais am forgais newydd neu'n adnewyddu morgais, rydym yn hapus i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o'ch

CYSYLLTWCH Â

Cysylltwch â WIBSS ar
02920 902280 neu
anfonwch e-bost at
wibss@wales.nhs.uk


Os nad yw eich galwad yn cael ei hateb, gadewch neges gyda'ch enw a'ch rhif cyswllt a byddwn yn eich ffonio yn ôl yn brydlon.


Ar gyfer Seicoleg a Llesiant anfonwch e-bost at:
wibss.wellbeing@wales.nhs.uk

Cyswllt Diweddar

Rydym yn cymryd eich gwybodaeth personol o ddifrif.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch tarddiad llythyr yn gofyn am eich data personol, sy'n ymddangos fel pe bai'n dod o WIBSS, cysylltwch â ni ar ein llinell uniongyrchol, **02920 902280**.





Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

incwm WIBSS. Cysylltwch â ni os oes angen llythyr personol arnoch at y diben hwn (neu at ddibenion ariannol cysylltiedig eraill).

Mae ein Tîm Hawliau Llesiant hefyd yn cynnig cymorth i lywio'r broses hon sy'n aml yn gymhleth. Maent yn cynnig cymorth i gael y gwaith papur a deall y ffurflenni.

HAWL I FUDD-DALIADAU

Maent yn darparu cyngor ac eiriolaeth cyfrinachol i chi a'ch teulu ynglŷn â budd-daliadau, arian, cymorth a mwy.

Deall Costau Ynni


Mae'r 'gwarant pris ynni' a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn golygu o 1 Hydref, na fydd aelwydydd ar y gyfradd newidiol safonol (SVR) sy'n defnyddio swm o ynni nodweddiadol yn talu mwy na £2,500 y flwyddyn am bob un o'r ddwy flynedd nesaf.

Bydd pob cartref yn cael gostyngiad o £400 ar ei filiau ynni o 22 Hydref. Bydd aelwydydd yn cael gostyngiad misol o tua £67 ar eu bil trydan domestig rhwng Hydref 2022 a Mawrth 2023. Mae'r ardoll werdd hefyd wedi'i hatal dros dro, a fydd yn arbed £150 y flwyddyn yn ychwanegol i chi.

Bydd pobl sy'n derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd hefyd yn cael taliad pellach o £324, gan Lywodraeth y DU, yn yr hydref. Bydd y rhai sydd wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth hefyd yn cael taliad o £300 a delir gan Lywodraeth y DU yn ogystal â thaliad tanwydd gaeaf blynyddol ym mis Tachwedd neu fis Rhagfyr. Mae taliad o £150 ar gael hefyd i bobl ag anableddau. Yn ogystal â hyn, byddwch yn derbyn taliad tanwydd gaeaf o £561 gan WIBSS.

Mae'n bosibl y bydd pobl sy'n derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, gan gynnwys Credyd Cynhwysol, credydau treth a Chredyd Pensiwn hefyd yn gymwys i gael taliad o £150 gan y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes. Bydd llawer o gyflenwyr yn ychwanegu'r gostyngiad hwn yn awtomatig i'w cwsmeriaid. I eraill, os ydych yn meddwl eich bod yn gymwys ar gyfer hyn ac nad ydych wedi ei dderbyn o'r blaen, cysylltwch â'ch cwmni ynni i gael asesiad.

Cyn bo hir, bydd WIBSS yn cynnal ymgyrch allanol yn ymwneud â mesurau effeithlonrwydd ynni ac arbedion posibl ar eich biliau dŵr, felly cadwch lygad am gyswllt yn fuan gan eich tîm Hawliau Llesiant.



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

Tandaliadau hanesyddol yr Adran Gwaith a Phensiynau

Rhwng Ionawr 2011 a Hydref 2014, cafodd rhai pobl a oedd yn derbyn Budd-dal Analluogrwydd a Lwfans Anabledd Difrifol eu hailasesu a'u trosglwyddo i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol.

Ond ni ystyriwyd y posibilrwydd bod ganddynt hawl i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm hefyd ym mhob achos. Felly mae'n bosibl na fydd unigolion wedi derbyn taliadau ychwanegol ar gyfer Anabledd Uwch. Premiymau Anabledd Difrifol, Gofalwyr a Phensiynwyr. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn cysylltu â'r bobl y mae'n bosibl yr effeithiwyd arnynt ac yn ad-dalu unrhyw symiau sy'n ddyledus. £5,000 yw'r taliad cyfartalog.

Er i'r Adran Gwaith a Phensiynau gysylltu â chynifer o bobl â phosibl, mae'n bosibl nad oedd miloedd o unigolion wedi darparu'r wybodaeth oedd ei hangen i adolygu eu hachosion neu nad oedd modd eu cyrraedd. Felly, os ydych yn meddwl bod tandaliadau ESA wedi effeithio arnoch chi wrth i chi gael eich symud o'r budd-daliadau analluogrwydd blaenorol ac nad oes neb wedi cysylltu â chi ynglŷn â hyn, ffoniwch 0800 169 0310. Neu cysylltwch â'ch Tîm Hawliau Llesiant WIBSS am ragor o wybodaeth.

TÎM SEICOLEG A LLESIANT

Ysgrifennon ni atoch chi'n ddiweddar i gynnig cyfleoedd cefnogaeth gymdeithasol/gan gymheiriaid. Rydym yn sylweddoli fod nifer o achosion proffil uchel wedi'u cynnal ar yr un pryd ac o'r herwydd roedd yr ymateb yn gyfyngedig, felly rydym am eich atgoffa o'r gwasanaethau sydd ar gael i chi. Mae WIBSS yn cynnig asesiad a thriniaeth seicolegol gyfrinachol, rhad ac am ddim, yn ymwneud ag anawsterau emosiynol cael diagnosis o Hepatitis C a/neu HIV, a byw gyda nhw. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i chi ac aelodau'ch teulu. Os hoffech chi gysylltu â ni, gellir cysylltu â'r tîm penodedig ar 029 20 196141, neu drwy e-bost: wibss.wellbeingsservice@wales.nhs.uk.

Dymunwn yn dda i chi gyd yr hydref hwn,

***Tîm y Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig
Cymru***

